HYFFORDDIANT EBC

rheolau newydd -

Diogelu Data

Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (RhCDdD) a Deddf Diogelu Data 2018

Beth mae eich eglwys chi angen wybod? Ydych chi'n gweithredu yn unol â'r rheolau newydd? Beth sy angen newid?

Beth? Ers Mai 25ain 2018, mae rheolau diogelu data wedi newid. Yn yr hydref cynhelir sesiynau gwybodaeth ar draws Cymru, ar y goblygiadau i Eglwys Bresbyteraidd Cymru.

I Bwy? Mae'r sesiynau i weinidogion a gweithwyr EBC. Maent yn addas hefyd ar gyfer blaenoriaid, yn enwedig ysgrifenyddion a thrysoryddion eglwys. Awgrymir bod o leiaf un o bob eglwys yn mynychu. Maent hefyd yn addas ar gyfer swyddogion y Gymdeithasfa a'r Henaduriaethau, y Gymanfa Gyffredinol ac ei Byrddau, Adrannau ac Is-bwyllgorau.

NB Sesiynau ychwanegol wedi eu trefnu. Gweler mewn coch isod.

Dyddiad	Amser	Lle	Iaith
Nos Lun 1.10.18	6.30-8.30pm * (swper ysgafn 6pm)	Capel Tabernacl, 81 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 1DD	Saesneg
Bore Mercher 3.10.18	10am-12am*	Capel Tabernacl, 81 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 1DD	Cymraeg, gyda cyfieithu i'r Saesneg
Bore Mawrth 9.10.18	10am-12am*	Coleg y Bala LL23 7RY	Cymraeg, gyda cyfieithu i'r Saesneg
Prynhawn Mawrth 9.10.28	1pm-3pm*	Coleg y Bala LL23 7RY	Cymraeg, gyda cyfieithu i'r Saesneg
Prynhawn Iau 11.10.18	1pm-3pm*	Capel Berea Newydd, Rhodfa Dewi Sant, Bangor, LL57 2AJ	Cymraeg
Nos Iau 11.10.18	6.30-8.30pm* (swper ysgafn 6pm)	Capel Berea Newydd, Rhodfa Dewi Sant, Bangor, LL57 2AJ	Cymraeg
Nos Lun 15.10.18	6.30-8.30pm * (swper ysgafn 6pm)	Capel y Morfa, Stryd Portland Aberystwyth, SY23 2DX	Cymraeg, gyda cyfieithu i'r Saesneg
Bore Mawrth 16.10.18	10am-12am*	Capel y Morfa, Stryd Portland Aberystwyth, SY23 2DX	Cymraeg
Nos Lun 22.10.18	6.30-8.30pm* (swper ysgafn 6pm)	Eglwys Babell Zion Newydd, SA31 2DJ, Ger Caerfyrddin	Cymraeg, gyda cyfieithu i'r Saesneg

Nos Lun 12.11.18	6.30-8.30pm* (swper ysgafn 6pm)	Capel Bethesda, Stryd Newydd, Yr Wyddgrug, CH7 1NZ	Saesneg

***Bydd sesiwn o hanner awr yn ychwanegol ar gyfer gweinidogion a gweithwyr EBC ar ddiwedd pob sesiwn (Felly bydd y sesiynau ar gyfer gweinidogion a gweithwyr yn para 10-12.30 neu 6.30-9pm)**

Cynnwys y sesiynau?

Bydd y sesiynau yn gyfuniad o gyflwyniadau byr o'r rheolau newydd ar fideo gan gyfreithwyr Geldards, a chyflwyniadau ymarferol yn cymhwyso'r rheolau i EBC, gan Ffion Williams (cyfreithiwr EBC). Bydd cyfle i drafod eich sefyllfa ac i holi cwestiynau.

O flaenllaw….

Ceisiwch ddarllen drwy'r ddogfen RHCDdD sydd ar ein gwefan (neu gysylltu â Swyddfa'r Gymanfa Gyffredinol am gopi).

Dewch â'r rhain efo chi i'r sesiwn -

- Adroddiad Blynyddol diweddaraf eich eglwys, a chopi o gylchlythyr eich eglwys os oes un

- Blwyddlyfr diweddaraf eich Henaduriaeth (os mai chi yw'r golygydd)

Oes angen cofrestru o flaen llaw?

Oes. Dewiswch y sesiwn mwyaf cyfleus i chi – bore neu nos, Cymraeg neu Saesneg. Mae'r cwrs am ddim, a darperir paned a bwyd. Ond rydym angen gwybod pwy sy'n dod, ac mae'n bosibl bydd newid mewn trefniadau. Felly peidiwch a throi i fyny heb roi gwybod!

Anfonwch enwau at Delyth Oswy, Cyd-lynydd Hyfforddiant CYN GYNTED Â PHOSIBL. Diolch.

delyth@ebcpcw.org.uk 07986 932261 / 01248 370463